

---

## **Marchnadoedd digidol yn y sector cyfathrebiadau**

Ymagwedd Ofcom at gystadleuaeth a materion  
defnyddwyr mewn marchnadoedd cyfathrebu seiliedig  
ar y we

---

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

## Wrth i bobl gyfathrebu'n ddi-dor ar-lein ac oddi ar-lein, mae angen yn awr i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar sicrhau bod cyfathrebiadau digidol yn gweithio i bawb

- 1.1 Ers i Ofcom gael ei greu 20 mlynedd yn ôl, mae'r ffordd yr ydym i gyd yn prynu cynnyrch, yn cael gwybodaeth, ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus wedi'i thrawsnewid gan y rhyngwrwd. Mae hyn yn arbennig o wir am y ffordd yr ydym yn cyfathrebu ac yn defnyddio cynnwys cyfryngau.
- 1.2 Yn y sector cyfathrebiadau, mae'r rhyngwrwd bellach yn sail i'r rhwydweithiau sydd fel arfer wedi cyflenwi ein gwasanaethau, o ffonio a negeseuon i deledu a chyfryngau eraill. Ar yr un pryd, mae'n darparu dewisiadau amgen sy'n ategu ac yn disodli'r ffyrdd yr ydym yn cyfathrebu.
- 1.3 Bydd pa mor dda y mae marchnadoedd digidol yn gweithredu'n gynyddol bwysig i'r canlyniadau y mae defnyddwyr yn eu profi ar draws y sectorau a reoleiddiwn. Mae angen i ni edrych gymaint ar sut mae cwmnïau'n defnyddio seilwaith a gwasanaethau digidol ag yr ydym ar y ceblau, y mastiau a'r lloerenni rydym wedi canolbwyntio arnynt yn y gorffennol.
- 1.4 Mae'r ddogfen hon yn nodi ein strategaeth i Ofcom addasu i'r realiti newydd hwn fel y gallwn barhau i sicrhau'r canlyniadau y mae defnyddwyr yn eu disgwyl gan eu gwasanaethau cyfathrebu.

## Mae'r ffordd y mae pobl yn cyfathrebu wedi newid


- 1.5 Er bod rhai defnyddwyr yn parhau i ddibynnu ar deffoni a theledu traddodiadol yn unig, mae'r rhain bellach yn y lleiafrif; er enghraifft, mae 94% o oedolion yn defnyddio llwyfannau ar-lein fel Whatsapp i anfon negeseuon neu wneud galwadau. Rydym wedi gweld fideo ar-alw drwy danysgrifiad yn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr, a llwyfannau sy'n grymuso pawb i greu a rhannu eu cynnwys clyweled eu hunain. Mae negeseuon testun a hyd yn oed meintiau llythyrau'n cael eu herydu'n raddol gan ddewisiadau digidol amgen. Yr edefyn cyffredin yw'r aflonyddwch o rwydweithiau a gwasanaethau ar-lein.
- 1.6 Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfathrebiadau digidol a gwasanaethau traddodiadol yn aml yn anweledig i ddefnyddwyr bellach, gydag iPhones yn cyflwyno negeseuon dros iMessage neu SMS, a setiau teledu clyfar yn cyrchu cynnwys trwy ffrydio neu deledu daearol. Mae natur ddi-dor y gwasanaethau hyn yn creu gwasanaethau gwyb, ond hefyd risgiau i ddefnyddwyr os ydynt yn ddarwybod yn dibynnu ar wasanaethau lle nad ydynt yn elwa o'r un mesurau diogelu y byddent yn eu disgwyl.

## Mae'r ffordd y mae cwmnïau'n darparu gwasanaethau wedi newid

- 1.7 Mae technolegau digidol wedi datgloi ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau cyfathrebiadau gyda mwy o swyddogaethau, effeithlonrwydd a rheolaeth. Mae cwmnïau

bellach yn defnyddio gwasanaethau cwmwl i wneud popeth o redeg rhwydweithiau telathrebu i ddsbarthu cynnwys teledu. Nid yw cyfathrebiadau digidol yn gyffredin mwyach: maent yn hollbresennol.

**Ffigur 1: Y gadwyn gwerth cyfathrebiadau digidol**



- 1.8 Mae esblygiad modelau busnes sy'n darparu'r gwasanaethau hyn wedi arwain at rai llwyfannau'n mynd yn bartneriaid masnachu hanfodol er mwyn i fusnesau gyrraedd defnyddwyr. Mae hefyd wedi arwain at bresenoldeb cwmnïau byd-eang cryfion wedi'u hintegreiddio'n fertigol sy'n rheoli llawer o'r llwyfannau hyn. Ychydig iawn o wasanaethau cyfathrebiadau a darlledu digidol sy'n cael eu darparu i gwsmeriaid terfynol heb gyfranogiad cwmni technoleg amlwladol, boed hynny wrth ddatblygu, dosbarthu, neu drwy'r ddyfais yn llaw y defnyddiwr.
- 1.9 Mewn rhai achosion mae cryfder y cwmnïau hyn yn golygu na all eraill gystadlu'n deg, gan godi'r perygl o rwystro arloesedd, buddsoddiad a thwf, a niweidio'r bobl a'r busnesau sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn. Yn fwy cyffredinol, wrth i farchnadoedd digidol fynd yn rhan annatod o bob agwedd ar gyfathrebiadau, mae gan fethiannau cystadlu yn y marchnadoedd hyn y potensial i danseilio cystadleuaeth bresennol mewn gwasanaethau critigol.

## Mae angen i ni newid ein ffocws hefyd

- 1.10 Cenhadaeth Ofcom o hyd yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, mae dyletswyddau statudol ar Ofcom i hyrwyddo cystadleuaeth, diogelu defnyddwyr rhag niwed, a sicrhau ystod eang o amcanion polisi eraill sy'n cynnwys cynnal plwraliaeth ddigonol ym maes teledu a radio, a diogelu defnyddwyr rhag cynnwys anghyfreithlon neu niweidiol. Fodd bynnag, ni fyddwn ond yn ymyrryd pan fydd ei angen er mwyn cefnogi marchnadoedd iach a ffyniannus sy'n

gweithio'n dda ar draws y canlyniadau yr ydym yn gofalu amdanynt. Y cydbwysedd hwn yw'r sail yr ydym yn ei defnyddio i gyflwyno dros ddefnyddwyr.

1.11 Mae integreiddio marchnadoedd digidol ym maes cyfathrebiadau'n eu gwneud yn hanfodol i gyflwyno diben Ofcom. Mae ein holl swyddogaethau heddiw yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried y cyfleoedd a'r risgiau o aflonyddwch digidol os ydym am barhau i gyflawni'n effeithiol. Mae'r ffordd y mae defnyddwyr bellach yn cyfathrebu, a'r ffordd y mae cwmnïau'n eu gwasanaethu, yn gofyn i ni feddwl am farchnadoedd digidol cymaint ag yr ydym wedi ystyried y sectorau telathrebu, cyfryngau a thechnoleg traddodiadol yn y gorffennol.

1.12 Felly, byddwn yn ymateb yn fwy uniongyrchol ar faterion digidol sy'n effeithio ar gyfathrebiadau, gan gael ein cyfeirio gan ein rôl fel rheoleiddiwr cydgyfeiriol, gan edrych ar draws ein holl sectorau a'n dyletswyddau. Byddwn yn blaenoriaethu:

- **Hyrwyddo amgylchedd lle gall defnyddwyr barhau i elwa o farchnadoedd cystadleuol.** Er enghraifft:
  - Mae gwasanaethau fel WhatsApp neu Netflix yn raddol yn disodli gwasanaethau fel SMS neu deledu llinol. Ni ddylai symud ar-lein olygu bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n llai rhag diffyg cystadleuaeth neu arferion amheus.
  - Mae gwasanaethau cwmwl yn gynyddol bwysig i lawer o fusnesau ar draws yr economi, gan gynnwys y sectorau telathrebu a darlledu. Wrth i'r galw am wasanaethau cwmwl barhau i dyfu, mae'n bwysig ein bod yn deall sut mae'r marchnadoedd hyn yn gweithredu ac a ydynt yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr.
- **Ystyried amcanion polisi cyhoeddus ehangach wrth i ni ddiogelu defnyddwyr a hyrwyddo cystadleuaeth.** Fel rhan o'n dyletswyddau ehangach mae gennym sawl amcan, y tu hwnt i wneud i farchnadoedd weithio'n effeithiol, sy'n parhau i fod yn hanfodol bwysig i gymdeithas ac i unigolion. Mae meddwl am gystadleuaeth a'r amcanion ehangach hyn yn gyffredinol wedi bod yn rhan o'n gwaith fel rheoleiddiwr cydgyfeiriol. Er enghraifft:
  - Roedd ein cyngor diweddar ar y cyd gan Ofcom/Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) i Lywodraeth y DU ar y berthynas rhwng cyhoeddwr newyddion a llwyfannau digidol yn ceisio sicrhau bod ymyriadau posib sy'n hyrwyddo cystadleuaeth hefyd yn cefnogi plwraliaeth y cyfryngau.
  - Mae dyletswyddau ar Ofcom i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys niweidiol ar lwyfannau rhannu fideos yn y DU, y mae disgwyl iddynt gael eu hehangu gyda'r [Mesur Diogelwch Ar-lein](#). Ni all ein gwaith i hybu cystadleuaeth danseilio'r amcanion allweddol hyn, ac rydym eisoes wedi dechrau meddwl am ryngweithio rhwng y cyfundrefnau hyn.

## Meysydd ffocws penodol dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt

1.13 Byddwn ni'n ymgymryd â rhaglen waith i archwilio sut mae marchnadoedd digidol yn gweithio ar gyfer defnyddwyr, buddsoddiad ac arloesedd yn y sectorau cyfathrebiadau. Bydd y rhaglen hon yn cael ei chefnogi gan ein rhaglen ymgysylltu â thechnoleg, sganio'r gorwel, a chydweithio â rheoleiddwyr eraill. Byddwn ni'n rhedeg pedwar prosiect wedi'u

targedu sydd o bwysigrwydd penodol i ddefnyddwyr yn y DU a gweithrediad marchnadoedd digidol.

- 1.14 Ein prif faes gwaith dros y flwyddyn i ddod fydd astudiaeth o'r farchnad o dan Ddeddf Menter 2002 i wasanaethau cwmwl yn y DU. Mae gwasanaethau cwmwl eisoes wedi'u sefydlu fel elfen hanfodol o sut mae gwasanaethau digidol yn cael eu darparu. Y darparwyr mwyaf o wasanaethau cwmwl yw Amazon (AWS), a Microsoft (Azure) a Google (GCP). Byddwn yn asesu cryfder y gystadleuaeth mewn gwasanaethau cwmwl a safle'r cwmnïau hyn yn y farchnad. Byddwn hefyd yn ystyried a yw unrhyw faterion cystadleuaeth y byddwn efallai'n eu nodi'n cael effaith andwyol ar ganlyniadau defnyddwyr yn gyffredinol, gan gynnwys yn ein marchnadoedd telathrebu a darlledu craidd.
- 1.15 Byddwn hefyd yn ffocysu ein gwaith ar y meysydd a ganlyn:
- **Niwtraliaeth y we:** cyn bo hir, byddwn yn ymgynghori ar ein hymagwedd at niwtraliaeth y we yn y dyfodol, sy'n edrych ar y berthynas rhwng darparwyr gwasanaethau rhynggrwyd a darparwyr cynnwys ar-lein.
  - **Pyrth cynnwys digidol:** byddwn yn archwilio'r risg bod pyrth cynnwys digidol (setiau teledu cysylltiedig, seinyddion clyfar/cymorthyddion digidol) yn mynd yn llwybr hanfodol i'r farchnad mewn ffyrdd a allai ystumio cystadleuaeth, gan effeithio yn y pen draw ar ystod, ansawdd neu bris y cynnwys sydd ar gael i ddefnyddwyr.
  - **Gwasanaethau cyfathrebu personol ar-lein:** mae gennym ddiddordeb mewn sut mae'r gwasanaethau hyn (megis WhatsApp neu Zoom) yn effeithio ar farchnadoedd ffonio a negeseua traddodiadol, a sut y gall datblygiadau yn y marchnadoedd hyn effeithio ar ein dyletswyddau mewn perthynas â chystadleuaeth, diogelu defnyddwyr, mynediad at wasanaethau hanfodol a sicrhau cysylltedd o un pen i'r llall.

## **Byddwn ni'n gweithio gyda rheoleiddwyr digidol eraill i wasanaethu defnyddwyr gyda'i gilydd**

- 1.16 Boed yn defnyddio data defnyddwyr, cynnig gwasanaethau ariannol, neu gystadlu ar draws marchnadoedd cymhleth, mae cwmnïau digidol yn wynebu disgwyliadau cynyddol ynghylch sut maen nhw'n ymddwyn. Fel rheoleiddwyr, mae angen i ni godi'r bar ar gyfer diwydiant ar yr un pryd â lleihau'r baich rydym yn ei roi arnyn nhw.
- 1.17 Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni gydlynu'n effeithiol, yn enwedig rhwng y rhai sydd â chyfrifoldebau cystadlu a data (Ofcom, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Bydd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) yn chwarae rhan allweddol wrth gwrdd â heriau cydlynu a chydweithredu a godir gan farchnadoedd gwasanaeth ar y rhynggrwyd.